# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 30 – Gaeaf, 2013 - 2014





***Rhyfeddod : Ciconia ar ei sodlau..!?***

# Unwaith eto Filamora

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- GWARCHOD Y GWEILCH
- TEITHIAU PWLLHELI, GLANNAU'R FENAI A PORTHMADOG
- GWEITHGAREDDAU'R GAEAF

***A LLAWER LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

## Golygyddol

**Ta ta a diolch Rhodri, helo Gareth a Huw**

Mi fu dipyn o newidiadau yn y Gymdeithas yn ddiweddar. Rhodri druan, wedi gwasanaeth gwych fel Ysgrifennydd a phrif Olygydd *Llygad Barcud* o'r cychwyn yn gorfod rhoi'r gorau iddi oherwydd pwysau gwaith. Diolch iti Rhodri ar ran pawb o'r Gymdeithas am dy ymroddiad, brwdfrydedd a dycnwch dros y blynyddoedd. 'Dwi'n siwr y bydd y profiad gefaist ti efo'r gorchwylion hyn yn fuddiol iawn iti i'r dyrfodol. Mi fydd Rhodri yn parhau fel aelod o'r Pwyllgor ac yn dal ati i arwain ambell daith, cyfrannu erthyglau a rhoi ambell sgwrs gyda'r nos inni.

Yn sgïl hyn penderfynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol fis Hydref, ar ôl cryn drafod, y byddai angen penodi dau i gymeryd lle Rhodri! Felly bu, a chaiff y gwaith o hyn ymlaen ei rannu rhwng Gareth Jones, ein gwe-feistr presennol, fydd yn gyfrifol am y gwaith cyffredinol a chysylltu â phobl, a Huw Dafydd fydd yn ysgrifennydd pwyllgorau. Difyr ynde? – fel arfer y mab sy'n dilyn y tad i unrhyw swydd, ond yn yr achos hwn y tad (Huw) sy'n dilyn y mab (Rhodri) i'r barchus anrhydeddus swydd.

**Gair o'r Pwyllgor**

Do, mi gawsom gyfarfod Pwyllgor a hwnnw'n un ffurfiol, am y tro cynta ers blynyddoedd. Fe ddigwyddodd hynny cyn ein cyfarfod 'Noson mins peis' ar Ragfyr y 10fed. Mewn gwirionedd roedd yr hen gwch wedi bod yn hwylio'n ei blaen ar awto-peilot ers sbel a'r drefn oedd pan fyddai angen penderfyniad ar rywbeth y byddai ryw rownd o drafodaeth ar y ffôn neu e-bost yn gwneud yn iawn.

Ond am fod Rhodri'n rhoi'r gorau iddi mi oedd angen cael trefn iawn ar pwy, o hyn allan, oedd i wneud be – ac fe gytunwyd ar hynny yn reit hawdd. Materion eraill i'w trafod oedd trefniant newydd i argraffu *Llygad Barcud* o Fehefin 2014 a sut i arbed y costau cynyddol – yn enwedig costau uchel postio – sy'n ein wynebu y dyddiau hyn.

Ar ran y Pwyllgor felly, ga'i ofyn i chi aelodau ein helpu? Hynny yw, byddai'n gyfleus ac yn llawer rhatach inni o ran costau postio, petaech chi'n gadael i Gareth gael eich cyfeiriad e-bost. Gall wedyn yrru gohebiaeth atoch yn ddigidol, e.e. y llythyrau sy'n hysbysebu'r Gynhadledd Flynyddol a hefyd nodyn i'ch atgoffa o'r teithiau / cyfarfodydd. Posibilrwydd arall yw y gallwn yrru copi digidol o *Llygad Barcud* ichi? Ond ddim ond os ydach yn dymuno ac yn cytuno i hynny. Drwy wneud hyn gallwn gadw pris aelodaeth o'r Gymdeithas yn rhesymol.

***Gyrrwch eich cyfeiriad e-bost i Gareth:*** pwllheli@gmail.com

**Tâl Aelodaeth**

Dyma 'chydig eiriau gan Brian:

*'Hoffwn ddioch i bawb sydd wedi talu yr hyn oedd yn ddyledus ar Dachwedd y 1af. Mae'r mwyafrif yn talu drwy Archeb Banc bellach (unigolyn £8.00, teulu £10.00), sy'n gyfleus iawn. I arbed costau ni fyddwn yn anfon llythyrau atgoffa i ailymaelodi eleni.'*

D Brian Paul (Trysorydd)

*Cyfranwch i'r wefan yn enwedig lluniau i'r Oriel, cofnodion / gwybodaeth am unrhyw adar difyr welsoch chi yn ddiweddar a chwiliwch am ôl rifynnau Llygad Barcud:*

***www.cymdeithastedbreezejones.org.uk***

**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 30 – Gaeaf 2013-2014**


**Golygydd –**
Twm Elias

**Cyfranwyr –**
Twm Elias, Gareth Jones, Ieuan Bryn

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.



**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywyddion Anrhydeddus –**
Iolo Williams
Anwen Breeze Jones



**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd *Llygad Barcud* –**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766 772 610)

**Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766 770 500)

**Ysgrifenyddion –**
Gareth Jones, Pwllheli (01758 614470) a Huw Dafydd, Dyffryn Ardudwy (01341 247446)


Am fwy o wybodaeth a ffurflen i ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at y Golygydd cyn diwedd Mawrth os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)

*Cyfranwch i'r wefan a chwiliwch am ôl-rifynnau Llygad Barcud:*
***www.cymdeithastedbreezejones.org.uk***

## Taith Pwllheli: Tachwedd 16

Mae harbwr Pwllheli wedi newid yn arw iawn dros y chwarter canrif diwethaf. Yn dilyn llawer o drafod, fe aed ati i greu marina fawr- sydd â bron i bum cant o angorfeydd ynddi ac sy'n gallu derbyn cychod o hyd at 80 troedfedd o hyd. Golygodd hyn wneud rhannau o'r harbwr yn llawer iawn dyfnach ac, mewn ardaloedd eraill, fe godwyd lefel y tir yn arw wrth i'r gro a godwyd o wely'r harbwr gael ei wasgaru drostynt. Arweiniodd hyn oll at golli llawer iawn o'r ardaloedd mwdlyd hynny a ddeuai i'r golwg pan fod y môr ar drai; yr ardaloedd holl-bwysig i adar wrth gwrs.



*Diwedd yr 1980au – gwelir ynys yng nghanol yr harbwr*



*Y presennol - mae'r angorfeydd bellach yn yr harbwr a'r ynys wedi diflannu*

O ganlyniad i hyn, mae llawer llai o gyfleodd i adar fwydo yn yr harbwr ac felly llawer llai o adar i'w gweld yno. Ceisiwyd gwneud iawn am hyn drwy ddatblygu gwarchodfeydd tir gwlyb mewn rhannau eraill o'r dref.

Casglodd nifer ohonom at ein gilydd wrth Hafan Pwllheli i gychwyn ar y daith, ond nid oedd pethau yn argoeli yn dda o ran yr adar. 'Doedd dim llawer ohonynt i'w gweld ar draeth Glan-Don gan fod llawer o gychod hwylio bychan yn cychwyn o'r traeth a hefyd nifer o bobl gyda'u cŵn oddi ar dennyn.

Cychwyn'som ar ein taith drwy fynd ar hyd y dwnan a ffurfiwyd gyda pheth o'r gro a godwyd. Fe dawelodd y prysurdeb ar y traeth, cliriodd y cymylau duon... a daeth yr adar yn eu holau. Roedd pethau'n dechrau gwella!



Glaniodd haid o bibyddion y mawn wrth ymyl nifer o biod môr, cwtiad torchog a choes-goch oedd yn bwydo wrth i'r llanw fynd allan. Cadwodd robin goch gwmni i ni wrth i ni gerdded ac fe ddaeth corhedydd go fusneslyd i edrych beth oeddem yn ei wneud. Yn wir fe ddaeth yn ddigon agos i ni gael cadarnhau mai corhedydd y waun ydoedd ac nid corhedydd y graig neu'r dŵr. Mae coesau corhedydd y waun yn llawer goleuach (melyn) na rhai'r ddau arall.



Yn ôl a ni wedyn ar hyd ceg yr afon tuag at y marina. Diwydiannol iawn oedd hi ar hyd y llwybr hwn, ond fe gawsom sioe dda gan filidowcar.





Wrth i ni fynd o'r marina, yr oeddem yn dechrau gweld tipyn mwy o adar. Yr oedd alarch yn prysur dacluso ei blu ac yn ymolchi, tra'r oedd bilidowcar a'i adenydd ar led yn sychu ei blu.



Hanner canrif yn ôl fe fyddai '*twitchers*' o bob cwr o'r wlad wedi heidio i gael cip ar yr aderyn a welsom nesaf - crëyr bach. Erbyn hyn fodd bynnag mae hwn wedi dod yn aderyn eithaf cyffredin mewn rhannau helaeth o Gymru a Lloegr.



Mae'r llun hwn a dynnwyd wrth geg Afon Erch, yn dangos cymaint llai ydyw na'r crëyr glas. Nid yw'r llun fodd bynnag yn dangos nodwedd go ddoniol am y crëyr bach – sef y sannau mawr melyn y mae yn eu gwisgo!


Tra'n bwyta'n cinio roedd cyfle i graffu ar draws yr harbwr a diddorol oedd gweld gwyach bach yn plymio yn y sianel o gwmpas y cychod. Roedd hefyd yn gyfle i ddysgu y gwahaniaeth rhwng o goeg-gylfinir a'r gylfinir (*go iawn*). (Y *goeg* yn llai ac efo streipen oleuach uwchben y llygaid.)



Ymlaen a ni wedyn at y llif-ddorau ble y daw Afon Rhyd-Hir i mewn i'r harbwr. Mae llawer yn sôn iddynt weld glas-y-dorlan yn y fan yma, ond 'doedd yr un am ddangos ei hun i ni.

A hithau yn drai, yr oedd ardal fawr o fwd ar ochr fewnol y llif-ddorau ac felly cawsom sioe dda o wahanol hwyaid – hwyaid gwylltion, hwyaid yr eithin, chwiwellod a chôr-hwyaid ynghyd â iâr ddŵr.





Draw a ni wedyn i'r darn o dir sy'n cysylltu'r Cob efo'r hen ynys. Mae hwn yn ddarn pwysig o dir gwyllt yng nghanol prysurdeb y dref ac yn gartref i'r ehedydd yn ystod yr haf. Gwelsom dipyn mwy o adar ar y traeth bach sydd ar ei ben draw ac wrth ddod yn ôl gwelsom glochdar y cerrig ar lwyn o eithin sy'n tyfu yn y fan honno.

Dilyn'som y llwybr yn ei flaen ar ben y Cob Bach at Bont Solomon ble y mae yna bob amser hwyaid ac elyrch yn disgwyl i gael eu bwydo gan bobol. (Caiff Pont Solomon ei henwi ar ôl Solomon Andrews- *entrepreneur* o Gaerdydd a fwriadai ddatblygu Pwllheli fel cyrchfan twristiaid yn niwedd y 19$^{eg}$ ganrif.) Wrth y bont, gwelsom y nythod crëyrod glas sydd yn y coed sy'n agos iawn at y lôn (ond a hithau'n fis Tachwedd, 'doedd dim adar o'u cwmpas).

Yr oedd y llwybr wedyn yn mynd yn ei ôl heibio corsle a thrwy goed tuag at yr harbwr. Ar hyd y llwybr hwn fe welsom adar go wahanol – sgrech y coed, ji binc, piod, a mwyalchod.

Yn ôl a ni wedyn am y ceir, ond yr oedd un olygfa arbennig i'n disgwyl eto. Yn ystod misoedd y gaeaf, gwelir miloedd o drudwy yn gwibio'n isel dros Bwllheli. Ar ôl diwrnod yn bwydo ar borfeydd Llŷn, maent yn prysuro'n eu holau i Ystumllyn i glwydo. Ac i goroni ein diwrnod, fe gawsom weld yr olygfa arbennig hon.

**Gareth a Gwennan Jones**
(Lluniau Gareth a Huw Dafydd)



# Unwaith eto Filamora... (rhan 1)

gan Twm Elias

**Fel arfer, wrth gychwyn ar ein teithiau dwy-flynyddol i dde Portiwgal, ein cân fydd: "Os ti'shio mynd i Filamora, Fydd raid 'ti godi'n gynnar yn y bora" (1). Ond y tro hwn mi gawsom gychwyn ar amser llawer mwy gwaraidd – 10.00yb yn hytrach na 3.30yb a glanio yn Faro tua 6.30yh. Llawer gwell!**

Am ein bod ni heb y plant y tro yma, dyma chwilio am ddîl rad ac aros mewn gwesty mawr posh yn hytrach na fila hunnan arlwy. Bendith fwya hynny, wedi codi'n gynnar o flaen y gweddill, oedd llwytho'n platiau brecwast bob bora (a dwi'n golygu llwyth **enfawr**) efo bob dim oedd ar gael a dwad a bagiad o iogwrt, wyau 'di berwi, crempogau, bara, caws a ffrwythau oddiyno (yn ddistaw bach fel 'tae) at ginio. Roedd yn hen ddigon inni wedyn tan gyda'r nos.



*Wel am le!*



*Ond o'r ffenest gefn mi oedd clwydfa fawr o adar to i'w gweld (a'u clywed) gyda'r nos a bora*

Delyth 'cw wedi dwad a 5 nofel 3 – 4" o drwch efo hi – y math sy' efo enw'r awdures yn llawer mwy na phennawd y llyfr. Pawb at y peth y bo: hi yn hapus yn ffrïo ger y pwll ymysg y morloi eraill tra mod i'n rhydd gryn dipyn o'r amser i fynd i chwilio am adar. Heblaw am ddydd Mercher, pan fo taith i'r farchnad fawr awyr agored yn Quateira yn orfodol. Wel dyna le difyr, hen farchnad jipsiwns anferth yn wreiddiol yn gwerthu dillad a nialwch yn bennaf ac yn ryw x20 gwaith yn fwy na Ffair Cricieth. Mae hi wedi parchuso'n arw yn ddiweddar ers iddi symud i safle fwy pwrpasol ond yn dal â dewis enfawr o bob dim a rheiny'n rhad. Bargeinion lu, 'mond ichi adael llonydd i'r batris ail-law a'r sgriw dreifars llaw chwith ynde?

**Adarydda**

Trio llefydd newydd i adarydda eleni. Fe gefais dipyn mwy o wybodaeth oddiar y we y tro hwn am fod Portiwgal o'r diwedd yn dechra sylweddoli cymaint o drysor adaryddol ydi'r wlad ac yn darparu gwybodaeth am lle i fynd a be sy' i'w weld yno (2). Mi fues i ar dair taith gerdded hir yn ystod yr wythnos â'r cwbwl o fewn cyrraedd hawdd ar droed o'r gwesty. Cychwyn yn gynnar efo potelaid fawr o ddŵr yn fy sgrepan a bocsied o bethau wedi eu bachu o'r stafell frecwast y bora hwnnw ....a heb anghofio'r camera, gwydrau a llyfr adar.

**Foz do Almagrem**


Cerdded i bendraw traeth Quateira, ffarwelio efo'r dre a'r twristiaid a bwrw 'mlaen am ryw ¾ milltir ar hyd pen clogwyn pridd coch nes cyrraedd lagŵn a chorstir Foz do Almagrem.



*Lili hyfryd ger y traeth*

Yn yr haf fel hyn 'doedd y llyn mawr geir yno ond ryw wythfed ran o'i faint yn y gaeaf. Yn y gaeaf hefyd bydd stormydd yn aml iawn yn torri'r stribedyn main o dywod sy'n gwahanu'r lagŵn o'r môr dros yr haf a bydd yr afon sy'n llifo drwy'r safle yn troi'n aber dros dro.

Nodwedd drawiadol oedd bod y gwely llaid enfawr oedd yn y golwg yn wyn drosto am fod




*Y Foz do Almagrem – llyn bychan yn yr haf ac aber lydan yn y gaeaf*

halen wedi anweddu o'r dŵr hallt. Roedd tua 250 o wylanod coesfelyn o bob oed (sy'n cyfateb i'n gwylanod penwaig ni) yn clwydo ger sianel yr afon ac, yn eu canol, clamp o giconia mawr gwyn.



*Y ciconia ydi'r un mawr*

Amryw o greyrod gwyn bach ar ymyl y dŵr; creyrod y gwartheg yn hela wrth y cyrs mawr tal ar yr ymylon a nifer dda o rydyddion yn nŵr bas yr afon. Mi gyfrais tua 15 o rostogion cynffonddu ac un Wil dŵr (= pibydd y dorlan) oedd ar eu hymfudiad tua'r de ac un deryn hawdd iawn ei nabod, sef yr hirgoes efo'i gorff du a gwyn â'i goesau cochion eithriadol o hir.

Roedd amryw o rydyddion eraill yno hefyd. Mi fedrais nabod pibydd y mawn, pibydd Caint, cwtiad y traeth, cwtiad torchog ac roedd un neu ddau o bethau bach eraill hefyd – ond doedd gen i ddim clem be oedden nhw am eu bod braidd yn bell. Criw da o wenoliaid yn hedfan uwchben – y wennol dingoch ac ambell wennol y bondo.

Dilyn y lôn fach lychlyd i fyny ochr y lagŵn, oedd yn fuan yn troi'n gors ar yr un ochr, efo hesg mawr anferth (tua 12 – 15') fel bambŵ ar y dde imi a gallt o goed pîn ar y chwith. Yn y coed roedd heidiau o adar to, deryn du a chefais gip ar gopog, efo'i adenydd rhesog, yn hedfan i ffwrdd. O'r hesg, a'r llwyni oedd yn eu mysg, roedd amryw o adar bach brith – y telor cynffon-wyntyll yn codi a gostwng a thurtur dorchog ar y lein ffôn oedd yn croesi'r gors. Mi ddaliais sylw ar honno rhag ofn mai y durtur go iawn oedd hi (mae honno wedi diflannu bron o Gymru bellach). Ond na, un goler ddu oedd ganddi yn hytrach na rhesiad, a phan ddechreuodd hi ganu: *"ŵy drwg Wil, ŵy drwg Wil"*, doedd dim amheuaeth.

Ar ôl tua milltir dyma groesi i'r ochr arall a chael cinio dan gysgod coed pîn. Be ddaeth heibio ond haid fechan o'r cwyrbig – deryn bychan llwydfrown efo pig coch llachar ac yna, o rywle (Haleliwia!) – titw cribog. Dyma'r tro cynta imi weld un o'r rhain.



*Titw cribog (llun: Gooble imm.)*

Yn ôl i lawr yr ochr arall i'r gors, lle roedd dipyn mwy o ffosydd efo dŵr ynddynt yn ymlwybro drwy'r hesg. Chwiaid gwylltion, ieir dŵr, cwtiar neu ddwy, creyrod glas, creyr gwyn, glas y dorlan yn gwichian a hedfan heibio, Wil dŵr a phibyddion eraill (anhysbys) ac un pibydd gwyrdd efo'i gefn tywyll a chrwmp ei din yn wyn.



*Ffosydd ym mhen ucha'r Foz*

Yna, o rywle, dyma rywbeth gwahanol yn cyrraedd. M'bach mwy na creyr gwyn bach, coesau hirion, adenydd gweddol grwn wrth iddo hedfan i'r ffos, pig hir cam ac yn ddu efo sglein werdd fel mulfran. A phan laniodd o – Waw! – crymanbig du! Wel am lwc. Fe gerddodd yn ei flaen ar ymyl y ffos a rownd y gornel.



*Y crymanbig, efo iâr ddŵr yn gwmni*



*...ac yn hedfan*

Dyma'i ddilyn o, felly i lawr a fi i'r gors, oedd yn sych dan draed wrth lwc ac ymlwybro'n ofalus drwy'r brwyn a'r brwgaitsh, cyn ddistawed a phosib ar ei ôl o. Rownd y gornel a fanno oedd o. Fe gododd, ond yn lle hedfan i ffwrdd dyma fo'n cylchu uwch fy mhen i ddwywaith i gael golwg iawn arna' i, gan chwyrnu'n ysgafn: *"drrr drrr"* cyn mynd.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r traeth a chylchynnu'r Foz do Almagrem, sylwi fod y gwylanod wedi cynyddu i tua 400 erbyn hyn a bod y ciconia yn dal yno, ond yn edrych yn dipyn byrrach na gynneu. Dyma godi'r binocs arno a chael dipyn o syrpreis – roedd yr hen dderyn mawr yn eistedd yn braf ar ei sodlau! Welais i rioed dderyn yn gwneud y fath beth o'r blaen. Roedd o'n ddoniol ofnadwy.



*Y ciconia ar ei sodlau...!*

***Cyfeiriadau***


1) *Llygad Barcud* 13 (2008)
2) *Birdwatching Guide to the Algarve* (Google) www.visitalgarve.pt/pressroom.file.php?fileID=123&file=guia observacao aves baixa resolucao pt.pdf


### *Newyddion trist am Mrs St Tudwal*

Pan ddaeth Anet Thomas, Llanengan ar draws pâr o goesau cochion modrwyog, gweddillion brân goesgoch, ger Abersoch ddiwedd Tachwedd, gyrrwyd y coesau, drwy law Kelvin BTO, i Adrienne Stratford fu'n monitro'r brain ers blynyddoedd.

Cadarnhaodd hi mai gweddillion 'Mrs St Tudwal', iâr 16 oed, oedd yma. Y modrwyau glas a coch a'r fodrwy fetel BTO (ES84357) wedi eu gosod arni pan yn gyw, yn 1997, yn Rhoscolyn. Bu'n nythu yn nwyrain Cilan ac yna ar Ynys Tudwal o 2000 hyd 2013.

## Taith Glannau'r Fenai, Tachwedd 30ain, 2013

gan Twm Elias

**Roedd 'na griw bach reit dda wedi dwad at ein gilydd wrth y Pier ym Mangor y bora Sadwrn hwnnw, ryw ddwsin i gyd. Mi oedd y tywydd yn garedig iawn hefyd – gosteg derbyniol iawn rhwng stormydd mewn gwirionedd ac fe ddaliodd yn reit braf a thynner inni tan iddi gymylu tua canol y p'nawn.**




*Dyma rai o'r criw ym Mangor – Alun, Gareth, John Parry, Ieuan Bryn (yn edrych braidd yn fygythiol), Dewi (ei gap i'w weld y tu ôl i ben Ieu), Anet yn cuddio y tu ôl i Huw, a Gwyn. Doedd Os, mab Alun ddim am gael tynnu ei lun a'r Moniars (Eifion a Nia) ddim wedi cyrraedd.*

**Am dro ar y Pier**


Roedd yn benllanw pan oeddem yn cyfarfod a dim llawer i'w weld heblaw ryw chydig o filidowcars i gyfeiriad Biwmaris, a'r gwylanod holl-bresennol, wrth gwrs. Roedd pawb mor brysur yn sgwrsio nes y bu raid imi waeddi a chwibiannu i gael unrhyw symudiad! Draw a ni ar hyd y Pier, ac am nad oedd dyn bach wrth y giât 'dwi ddim y meddwl fod pawb wedi talu – ond peidiwch d'eud wrth neb!

Fel yr oeddem yn dynesu at y pen dyma sylwi ar dderyn go braff ar y dŵr, felly dyma roi'r gwydra arno fo a gweld mai trochydd mawr oedd yno. Wrth fynd yn nes mi gawsom olwg dda iawn arno fo yn cael bath a chael ei blu i drefn, weithiau'n troi ar ei ochr i ddangos ei fol inni.



Ym mhendraw'r Pier mae 'na fframwaith haearn a grisiau'n mynd lawr at lanfa lle byddai fferi yn croesi i Ynys Môn ar un adeg. Mi oedd tipyn go lew o'r gwaith haearn 'ma dan ddŵr heddiw ac, yn ddifyr iawn yn darparu clwydfan wych i griw o gwtiaid y traeth. Roedd 28 yno i gyd yn aros am y trai a'r peth hyfryd oedd eu clywed yn trydar a galw a checru. 'Dach chi ddim yn clywed cymaint o'u sŵn nhw fel arfer ond am eu bod i gyd efo'i gilydd

mewn lle cyfyng reddent yn llawer mwy llafar na'r arfer.



*Yn aros am y trai*

Golwg dda iawn hefyd ar filidowcar yn sefyll ar y bwi coch oddiar pendraw'r Pier.

Ymlwybro'n ôl yn ara bach. Y llanw'n dechra' gwagio erbyn hyn ac fel yr oedd ambell stimyn o fwd yn dwad i'r golwg yn y pellter roedd criwiau o adar yn glanio arnyn nhw ac yn dechra' bwydo. Erbyn hyn, hefyd, roedd heidiau bychain o biod môr, oedd wedi bod yn clwydo i gyfeiriad y Borth, yn hedfan drosodd yn barod at y wledd lyngyraidd oedd yn eu haros ar erwau lleidiog Traeth Lafan. "Well ini fynd cyn iddi wagio gormod yn Aberogwen," medda finna. Fel yr oeddem yn gadael dyma chwadan ddanheddog yn hedfan dros ein pennau: "'S'gwn i os gwelwn ni honna yno," medda fi wedyn. Rhannu ceir at y siwrnai a ffwrdd a ni.

**Yn Gwagio'n Aberogwen**

Erbyn inni gyrraedd mi oedd y trai dipyn mwy na oeddem wedi ei feddwl. Anodd gweld hynny 'rownd y gornel' o Fangor fel 'tae ac, wrth gwrs, unwaith y mae'n dechrau gwagio ar draeth Lafan fe wagith yn sydyn iawn. Roedd 'na nifer enfawr o adar allan ar y llaid – yn biod môr, coesgochiaid, gwylanod, chwiaid eithin ayyb a chriw o 45 gŵydd wyllt y cyrraedd o rhywle.

O'r maes parcio ger y traeth a dilyn y ffordd hyd at fynedfa Gwarchodfa Aberogwen ger wal fawr Y Faenol a dilyn y llwybr i'r guddfan. Dyma grawc uchel aflafar a rhyfeddu mai creyr gwyn bach oedd yn gyfrifol! Distaw iawn yw y rhain fel arfer, sy'n beth da yn fy marn i am fod ei hen alwad hyll o yn tynnu oddiar ei ddelwedd sidêt a glandeg o braidd!

**Yn y guddfan**

O'r guddfan, roedd y pyllau ar yr ochr ddwyreiniol yn edrych yn wag iawn. Cyfnod y penllanw ydi'r adeg orau i weld adar yn fan hyn am y daw rhydyddion i lochesu yma pan godith y môr a'u gyrru o'r aber. Eto fyth mi welsom greyr glas, creyr gwyn bach, iâr ddŵr, pâr o wyeich bach yn plymio a chriwiau bach o chwiaid gwylltion, chwiwellod a phâr o chwiaid llygad aur.



*Creyr bach yn y sianel*

Roedd criw da o gyfeillion bach pluog o gwmpas y caffi adar ger y guddfan – titws bach, titws mawr efo'r streipen ddu lydan i'w gweld yn amlwg dan fol y ceiliog o gymharu â'r streipen gul dorredig dan fol yr iâr. Ji-bincs hefyd yn bwydo pan oedd y titws yn gadael iddyn nhw. Robin goch ar y llawr yn manteisio ar f'yta bler y titws, a deryn du a dryw yn stelcian yn y llwyni gerllaw. Fe ddaeth 'na wiwer lwyd o rywle hefyd ac fe gafwyd cip ar gnocell fraith fwya yn galw a hedfan dros y guddfan.

Gweddol ddistaw oedd hi ar ochr yr aber hefyd – y dŵr ymhell allan erbyn hyn. Yr adar arferol wedi eu gwasgaru dros ardal eang ac ambell un yn werth dal sylw arno – coeswyrdd a haid fechan o ylfinirod (neu 'glyfinir' fel fyddai nhad yn eu galw). Pedair math o wylan – y benddu, y benwaig, y gefnddu leiaf a haid fechan o wylanod y gweunydd yn gymysg â nhw. Rhain chydig yn llai na'r wylan benwaig,

efo'r pen chydig yn llwyd a'r coesau yn wyrdd golau yn hytrach na phinc.

Golygfa drawiadol, er yn bell, oedd haid fawr o adar yn hedfan uwchben y sianel ger Biwmaris ac yn newid lliw o wyn i ddu i wyn i ddu.... Tebyg mai pibydd yr aber oedd y rhain, yn hedfan yn igam-ogam, yn ddu pan oedd eu cefnau tuag atom ac yn wyn pan yn troi a dangos eu boliau.

**Am dro ar hyd y traeth**

Wedi ciniawa yn y guddfan dyma feddwl y byddai'n dda cael 'mestyn y cyhyrau ryw chydig. Allan a ni felly a'i hel hi rownd am y traeth o flaen y guddfan. Sylwi ar fadarch yn tyfu yn y borfa yng nghysgod y llwyni – ia, madarch y meusydd neu'r myshrwms bwytadwy – yn hwyr iawn yn y tymor ond ddim yn ffit i'w byta chwaith am eu bod braidd yn gynthronllyd.

Sylwi ar yr amrywiaeth anhygoel o gerrig ar y traeth, bob lliw a llun – llawer ohonynt wedi dwad o'r clogwyn pridd gerllaw, oedd yn amlwg yn cael ei erydu gan y môr. Roedd y cerrig ym mhridd y clogwyn hefyd yn grynion – wedi cael eu treiglo yma gan y rhewlif ryw 15,000 o flynyddoedd yn ôl.

Difyr iawn oedd gweld, ryw lathen i lawr o ben y clogwyn, hen beipen glai oedd wedi ei gosod yma i ddraenio'r tir ryw dro. Hanner peipen mewn gwirionedd, ar ffurf 'U' ar ei phen i lawr. Peipen ddraenio eitha cynnar ac yn dyddio o ganol y 19$^{fed}$ ganrif.

Ymlaen a ni heibio'r maes parcio, hefo'i arwyddion tair-ieithog: Cymraeg, Saesneg, Pwyleg yn rhybuddio'r casglwyr cocos i beidio mentro ar y llaid yma ond i ddilyn y saethau gleision ar ymyl y traeth am ryw hanner milltir i le mae'r llaid yn troi'n dywod, sy'n dipyn saffach i gerdded arno!

Erbyn hyn roedd y môr wedi cilio mor bell nes diflannu'n gyfangwbwl. Golygfa ryfedd – y tywod yn ymestyn reit i'r gorwel ac Ynys Seiriol a'r Gogarth yn ymddangos fel bryniau yn codi o wastatir diderfyn.



*Yn Aberogwen: Eifion, Nia ac Osian yn hwn*



*Osian a JP*

Troi yn ein holau a chanfod sawl carreg yn llawn ffosiliau ar y traeth. Un yn arbennig efo math o greadur môr a elwir yn *Crinoid* yn drwch ynddi ac yn dyddio o'r cyfnod Ordoficaidd mae'n bosib – ryw 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Roedd ganddynt goesyn hir â 'gafael' llydan ar ei gwaelod yn sownd wrth graig ac ar y pen nifer fawr o freichiau pluog i ddal eu prae.

Math arall o ffosil oedd y cregyn, tebyg i wystrus, mewn carreg galch. O Fôn y daeth y rhain – o'r ochr arall i'r Fennai.

Taith ddifyr, hamddenol ac amrywiol. Y tywydd a'r golau'n wych a'r criw yn hapus a chytûn. Be well ynde?

# Gwarchod Gweilch Glaslyn

gan Ieuan Bryn

**Bob tro, byddwn yn ei fethu. Er gwaethaf pob cynnig arni, ei fethu wnawn i bob un waith. Byddai o ym Morfa Mawddach a minnau yn Ynys-hir. Byddai o'n sgota yn Llyn Efyrnwy a minnau'n disgwyl am oriau ar lan Llyn Tegid. Byddai o'n mynd yn ôl a blaen, yn ôl a blaen, yn aber Afon Dwyryd a minnau'n chwilio a chwilio amdano ar Gob Malltraeth. Ac felly y bu hi am ddegawd bron!**

Ac yna, un min nos, fe'i gwelais. Yng nghyffiniau Nantmor ar gangen coeden wedi hen bydru a physgodyn gloyw'n gwingo yn ei grafangau.

Sôn yr wyf, wrth gwrs, am walch y pysgod ('eryr y pysgod', yn ôl rhai, ac 'eryr y dŵr' neu 'crafangydd y pysgod' i eraill). Fo a'i gymar oedd y cyntaf i ymsefydlu'n go iawn yng Nghymru, a'r flwyddyn oedd 2004. Agorodd hyn bennod newydd, ddifyr dros ben i mi ac i'r gymuned leol. Deuai degau o drigolion ardal Porthmadog i wylio'r adar dieithr bob dydd – seiri coed, walwyr, trydanwyr, gweithwyr chwarel, perchnogion siopau bach a chaffis, ffermwyr, pysgotwyr, athrawon, cynghorwyr... A phawb, o'r plentyn lleiaf i'r oedolyn hynaf, yn gwirioni!

A doedd hynny ddim yn syndod gan fod gweilch y pysgod yn adar mor fawr a thrawiadol; mae eu hadenydd, fel y gwyddoch, yn bum troedfedd a rhagor pan fyddant ar led. Mae'r iâr yn ddwy droedfedd o hyd ac yn pwyso tua phedwar pwys, a'r ceiliog dipyn yn llai ac yn 22 modfedd o hyd. A phwy o'r hil ddynol, heb sôn am bysgod, na fyddai'n arswydo wrth weld y crafangau mawr miniog a'r llygaid didrugaredd?

Ar ôl iddynt ganfod pysgodyn (mingrwn, fel rheol), fe'u gwelir yn hofran ac yna'n cau eu hadenydd a phlymio i'r dŵr. Gallant fynd hyd at lathen o dan y dŵr a chau eu ffroenau rhag boddi, ond dim ond un o bob pedwar plymiad, ar gyfartaledd, sy'n llwyddiannus. Ac ar ôl dal pysgodyn, byddant yn ei gludo drwy'r awyr, a phen y pysgodyn bob amser ymlaen a'r gynffon am yn ôl.



*...a phen y pysgodyn at ymlaen (llun: Emyr Evans)*

Y siwrnai flynyddol o Orllewin Affrica i'r Traeth Mawr sy'n fy rhyfeddu i - dros 3,500 o filltiroedd mewn tua pythefnos, gan wynebu pob mathau o rwystrau (gwifrau trydan... peilonau... melinau gwynt... rhwydi pysgota... stormydd... a saethwyr dieflig Malta a Sbaen) ond byddant yn dychwelyd bob blwyddyn i'r un ardal, i'r un goeden ac i'r un nyth.

Y gred yw mai'r proteinau arbenigol sydd yn eu llygaid, a'r gronynnau magnetit sydd yn nerfau'r benglog, sy'n eu cynorthwyo i wneud hyn; mae'r rheini'n eu galluogi i ddilyn llinellau magnetig y ddaear. Bydd y gweilch hefyd yn dilyn yr haul a'r sêr. Byddant yn sylwi ar dirnodau amlwg ac yn eu cofio. Credir hefyd eu bod hyd yn oed yn cofio arogleuon llecynnau penodol ar y daith ac yn cofio synau allweddol hefyd.

Wrth adeiladu eu nyth, byddant yn rhwygo brigau oddi ar goed â'u crafangau

cryfion ac yn ysgubo i lawr i godi tyweirch oddi ar y ddaear er mwyn diddosi'r nyth. Tri ŵy a ddodwyir, fel rheol – rhai cochfrown, smotiog yr un maint ag wyau ieir buarth. Ar ôl sathru'r iâr amryw o weithiau, dodwyir yr ŵy cyntaf ymhen pythefnos a bydd bwlch o ddau ddiwrnod rhwng pob ŵy. Bydd y cywion yn deor ymhen 37 diwrnod, yn gallu hedfan ymhen 53 diwrnod ac yn pysgota ymhen rhyw ddau fis. Cyn pen chwe mis, byddant yn hollol annibynnol.

Er i wyntoedd tymhestlog ddryllio eu nyth cyntaf yn 2004 gan ladd y ddau gyw, dychwelodd y pâr i ardal Porthmadog yn rheolaidd gan fagu cywion bob blwyddyn. Hyd yn hyn, magwyd 23 o gywion ganddynt a hwy, felly, yw gweilch mwyaf llwyddiannus Cymru.



*Y nyth ar Forfa Glaslyn, 2007 (llun: Emyr Evans)*

Beth yw'r uchafbwyntiau i mi? Yn gyntaf, canfod gwalch y pysgod yn fy mro fy hun am y tro cyntaf a'i weld, y tro cyntaf hwnnw, yn gwledda ar bysgodyn mawr, anhydrin. Yn ail, gweld (gyda chymorth camera a osodwyd uwchben y nyth) gyw egwan yn ymbalfalu'n araf drwy blisgyn ei ŵy at olau dydd. Yn drydydd, gweld y naill gyw ar ôl y llall, wedi ymdrech gwbl benderfynol, yn cael gwynt o dan eu hadenydd ac yn mentro hedfan am y tro cyntaf. Ac yn olaf, gweld y ceiliog ar fore cynnar o Ebrill yn plymio i Afon Glaslyn, yn taro'r dŵr fel taran ac, o ganol ffrwydriad o ddŵr, yn codi mingrwn gwinglyd a'i gludo tua'r nyth, a diferion dŵr yn disgyn fel gemau i'r ddaear wrth i'r ceiliog ysgwyd ei blu yn ystod ei ehediad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, cynyddodd nifer y gweilch mewn sawl ardal yng Nghymru – ym Môn, yn Nyffryn Glaslyn, yng nghyffiniau'r Bala a Thrawsfynydd ac yn Nyffryn Dyfi a'r Canolbarth. Mae Prosiect Gweilch Cors Ddyfi'n mynd rhagddo o nerth i nerth ac mae staff y cynllun gweddol fychan hwn yn dangos i sefydliad adarydda mawr fel yr RSPB sut mae hybu ffyniant gweilch y pysgod gydag ymroddiad diarhebol; maent yn dangos hefyd sut mae cydweithio'n effeithiol a pharchu'r gymuned leol. Hyd y gwyddom, nid oedd yr un gwalch yn nythu yn yr ardaloedd a enwyd cyn 2004.

Ond mae yna ochr arall i'r geiniog. Mae lladron wyau'n fygythiad parhaus i ddyfodol gweilch y pysgod. Bum mlynedd yn ôl, cafwyd Richard Pearson o Cleethorpes yn Swydd Lincoln yn euog o ddwyn 7,000 o wyau adar, gan gynnwys wyau brain coesgoch ac wyau hebog tramor o Ogledd Cymru. Yn Awst 2010, carcharwyd Jeffrey Lendrum o Towcester, Swydd Northampton am fod ganddo 14 o wyau hebogiaid tramor yn ei feddiant. Roeddent yn werth dros £60,000 ar y farchnad ddu, ac o nyth ger y Rhondda y cipiwyd rhai ohonynt. Credir bod dros 300 o ladron wyau'n gweithredu yng Ngwledydd Prydain ar hyn o bryd.

Agwedd atgas arall ar yr her o warchod gweilch Cymru oedd penderfyniad y Gymdeithas Gwarchod Adar (sef yr RSPB) i gefnu'n llwyr ar gynllun gwarchod gweilch Glaslyn eleni. Roedd nyth cyntaf y gweilch hyn yn garreg filltir hynod o bwysig yn hanes adarydda yng Nghymru ac er mai'r RSPB fu'n rheoli'r prosiect o'r cychwyn, llugoer oedd eu hymwneud hwy,

mewn gwirionedd. Mae yna ddigonedd o weilch y pysgod ar hyd a lled y byd, meddent, ac nid yw'r rhywogaeth mewn perygl... Ond nid dyna'r pwynt. O ran adarydda yng Nghymru, mae gweilch Glaslyn yn unigryw a dylid eu gwarchod hyd yr eithaf. Eu trin fel merched y nos wnaeth yr RSPB er mwyn sugno cymaint o arian â phosib ohonynt a gwario'r arian wedyn nid ar warchod adar ond ar ehangu eu canolfannau a chodi siopau i werthu'r nwyddau rhyfeddaf. Yn ôl a ddeallaf, gwariasant £400,000 yn ddiweddar ar uwchraddio maes parcio! Denu mwy a mwy o aelodau a chribinio mwy a mwy o arian yw'r flaenoriaeth, ac mae ganddynt fwy o ddiddordeb y dyddiau hyn mewn achub llyffantod yn Brasil na sicrhau ffyniant adar Cymru. Ewch i unrhyw un o'u gwarchodfeydd ac fe welwch fod yna daflen farchnata'n ceisio'ch perswadio i ymaelodi, hyd yn oed ar ddrws eich ciwbigl yn y tŷ bach! Bûm yn aelod o'r RSPB am dros ugain mlynedd, ond mae'r Gymdeithas wedi hen golli'i ffordd ac rwyf wedi terfynu fy aelodaeth ohoni.

Yn y cyfnod y bu'r RSPB yn rheoli Prosiect Gweilch Glaslyn, gadawsant i'r Safle Gwylio fynd rhwng y cŵn a'r brain, a lleihaodd nifer yr ymwelwyr yn enbyd. Roedd rhai o'r staff yn rhyfeddol o brin eu gwybodaeth am fywyd cefn gwlad; cofiaf un o brif reolwyr y prosiect yn ffonio milfeddyg unwaith i ddweud bod buwch mewn cae cyfagos yn gwaedu i farwolaeth. Dim ond bwrw ei brych ar ôl cael llo yr oedd hi!

O gefndir trefol Saesneg y daw llawer o staff a gwirfoddolwyr yr RSPB ac nid oes ganddynt ronyn o ddiddordeb yn y gymuned leol nac yn ei diwylliant a'i hetifeddiaeth. Maent yn bychanu adarwyr profiadol lleol ac yn penodi staff digon di-glem. Cefais sawl profiad personol o'u huwch-swyddogion cenedlaethol yn camarwain pobl yn fwriadol; un enghraifft o hynny oedd y modd y bu iddynt wrthod trosglwyddo rheolaeth Prosiect Gweilch Glaslyn i'r gymuned leol yn y blynyddoedd cynnar, er iddynt addo hynny'n glir ar ddechrau'r cynllun.

Daw hyn oll i'm meddwl wrth i mi baratoi at warchod nyth y gweilch dros nos, am y tro olaf eleni...

*Mae hi'n tynnu am naw y nos ac yn bryd sicrhau bod gen i bopeth sydd ei angen – digon o ddillad cynnes, esgidiau sy'n dal dŵr, fflasg boeth, pecyn bwyd ac, yn bwysicach na dim, ffôn symudol a lamp sy'n taflu goleuni nerthol.*

*Hel y cyfan at ei gilydd ac agor drws y tŷ. Mae'r gwynt yn hyrddio tua 30-35 milltir yr awr ac mae hi'n pistyllio. Felly, pwyll piau hi wrth yrru i lawr y lôn goediog, gul at y Safle Gwarchod lle mae yna wirfoddolwr arall yn disgwyl amdanaf mewn carafán a'i llond o drugareddau technegol, gan gynnwys sgrin electronig sy'n dangos y nyth a'r wyau prin sydd ynddo.*

*Mae hi'n dal i fwrw fel o grwc wrth i ni ymlwybro drwy'r brwyn a'r twmpathau eithin at y guddfan lle y cawn olwg agos, agos ar y goeden nythu ac ar bopeth sy'n symud ac yn digwydd yng nghyffiniau'r nyth.*

*Ar noson fwy llonydd, mae'n fwy na thebyg y gwelech chi dylluan wen yn hela reit o flaen y guddfan neu fochyn daear yn sbaena am bryfed genwair yn y cae tu cefn i chi neu lwynog yn stopio'n stond a'i lygaid yn tanio wrth i belydr eich lamp daro arno. A phetaech chi'n lwcus iawn, fe glywech ddyfrgi a'i rai bach yn sgrialu i'r afon am loches.*

*Dim gobaith am hynny heno. Mae'r gwynt yn ubain a'r caban pren yn crynu drwyddo. A*

*rhaid sefyll yn ddigon pell o'r hatshys agored wrth i'r curlaw yrru i mewn a gwlychu popeth yn domen.*

*Ddau o'r gloch y bore, mae'r tymheredd yn gostwng eto a'r oerfel yn ymdreiddio i fêr pob asgwrn. Mae hi'n frwydr ystyfnig i rwystro'r amrannau rhag cau.*

*Agor y fflasg ac mae'r baned gynnes yn ein symbylu i roi tro arall o amgylch y safle.*

*Erbyn hyn, mae'r glaw wedi peidio a'r gwynt wedi gostegu, ac mae'r awyr yn bigau sêr i gyd. Mae yna seren wib yn sleifio'n dawel dros un o'r copaon ac, o fewn tafliad carreg i'r Ynysfor a anfarwolwyd gan R Williams Parry, mae'r tylluanod yn hwtian am y gorau.*

*Pan lithrai gloywddwr Glaslyn*
*I'r gwyll fel cledd i'r wain,*
*Pan gochai pell ffenestri'r plas*
*Rhwng briglas lwyni'r brain,*
*Pan gaeai syrthni safnau'r cŵn,*
*Nosai Ynysfor yn eu sŵn...*

*Dewisodd gweilch Glaslyn nythu yn un o'r llecynnau harddaf un yng Nghymru ac, wedi iddi wawrio, down allan o'r guddfan a dotio ar yr olygfa. Wrth y bompren, mae mymryn o darth yn loetran ar wydr yr afon ac, ar y gorwel, mae llethrau clir Moel Hebog, yr Wyddfa, Lliwedd, y Cnicht a'r ddau Foelwyn yn goncwest o wyrdd a phorffor a phiws. Ac mae yna fronfraith, yn gyntaf, a chog wedyn yn ysbarduno côr y wig i greu simffoni felys o seiniau sy'n aros yn fy nghof am oriau.*

*Ac i mi, dyna'r wobr am warchod y nyth rhag lladron wyau – y berthynas gyfrin rhyngoch a'r gweilch a'r creaduriaid gwyllt eraill sydd yno, a gallu ymdrochi'n llwyr yn y distawrwydd a'r prydferthwch ysgytwol o'ch cwmpas.*

*Nes dyfod o'r hollfyd weithiau i'r tawelwch*
*Ac ar y ddau gae fe gerddai ei bobl,*
*A thrwyddynt, rhyngddynt, amdanynt ymdaenai*
*Awen yn codi o'r cudd, yn cydio'r cwbl.*

## ***Gweld reit rownd***



*Cyffylog 14eg Mai, 2013, Gellilydan*

Wyddoch chi mai gan y cyffylog mae'r olygfa reit rownd fwya o bron unrhyw greadur?

Gall weld 360° i bob cyfeiriad at y gorwel ac am fod ei lygaid mor uchel ar ei ben gall weld uwchben heb orfod symud ei ben.

Yr unig le lle nad yw'n medru gweld yn hawdd yw i fyny ei drwyn neu ei din ei hun – mae'n rhaid iddo edrych mewn drych, neu bwll dŵr llonydd i lwyddo i wneud hynny.

# Taith Port, Rhagfyr 14eg, 2013

gan Twm Elias

**Dyma ni eto, ein taith Dolig draddodiadol ym Mhorthmadog. I ble 'r aeth yr amser d'wch? Roedd hi bron fel ddoe ers pan oedden ni'n cyfarfod yma llynedd ger Recordiau'r Cob, a finna' ryw chydig yn hwyr yn cyrraedd y tro hwnnw hefyd, fel heddiw. Dwsin glew wedi troi allan ar ddiwrnod go wyntog a llwytaidd, ond wnaeth hi ddim bwrw chwaith tan y p'nawn – a ninna'u saff yn y caffi'n cael paned a chacen erbyn hynny.**




*Y criw yn brwydro yn erbyn y gwynt: Gwenan, cefn pen Dewi, Alun, Eifion, Nia, Gareth, Gwenda, Gwen, Sian, William Madocs ydi'r peth mawr (!), Sion Corn, JP a Haf. Mi ddaeth Anwen a Nerys o rywle hefyd.*

Ei chychwyn hi dros y giatiau llanw am y Cob Crwn. Er mai ryw newydd ddechra gwagio oedd hi yn yr harbwr mewnol roedd cryn dipyn o li drwy'r giatiau o'r afon am fod y dŵr yn weddol uchel ar ochr y Glaslyn.

Difyr oedd sylwi ar y chwiaid, chwiws (= chwiwellod) yn bennaf, ac ambell gor-hwyaden, i gyd yn llechu yn y clytiau brwyn a gweiriach oedd sticio allan o'r dyfroedd. A hawdd gweld pam: roedd y gwynt yn chwipio wyneb y dŵr cymaint nes ei fod yn donnog a chrychog iawn yn y llefydd agored ond lle ceid rhywfaint o gysgod y tu ôl i'r tyfiant oedd wedi ei hanner boddi roedd y dŵr yn llawer llonyddach. Yma hefyd, ar y tir sych odditanom, eto yng nghysgod y brwyn roedd ryw hanner dwsin o gornchwiglod.

Ym mhendraw'r pwll mawr cynta roedd bilidowcar yn brwydro i gadw'i draed ar un o'r postiau oedd yn sticio allan o'r dŵr yno. Pwy ddaeth heibio ryw chydig funudau wedyn ond John Inch, ac o'i holi os oedd adar prin o gwmpas, fe ddywedod bod gwalch bach wedi bod yn defnyddio'r postiau hyn yn ddiweddar i gadw golwg am brae ar y morfa. Ond ddim heddiw! Roedd pibydd coeswyrdd wedi bod o gwmpas yn ddiweddar hefyd.

Roedd hi 'mbach yn ddistawach yn ochr arall i'r Cob Crwn: creyr gwyn yn crwydro'r ymyl pella, haid o chwiws yn aros i'r dŵr gilio, sawl gwyach bach yn plymio, ceiliog chwadan ddanheddog bendigedig yn y sianel ac ar y mwd oedd yn dechra dod i'r golwg nifer o rostogion ac adar eraill yn dechrau bwydo.



*Gwyach bach yn paratoi i blymio. Tybed sut mae o'n ffeindio'i brae yn y dŵr mwdlyd?*

Rownd y Cob Crwn a ni yn ara bach, a'r gwynt yn gryf iawn yn y pen pella a chawod sydyn yn ein gorfodi i roi'n trowsusau glaw. Croesi pont y cyt, ond dim i'w weld yn y sianel yr ochr ucha' – mae'n werth cael golwg rhag ofn bod rhegen y dŵr, glas y dorlan neu hydnoed ddyfrgi yn llechu yno. Ond ddim byd heblaw deryn du heddiw.

Croesi'r ffordd a thros y wal fechan gyferbyn a chael cysgod da iawn rhag y gwynt wrth y wal frics ar ymyl yr harbwr. Cael cyfle i ddechrau cyfri:

34 rhostog (4 cynffonddu oedd yn unig rai oedd yn ddigon ystyriol i adael inni weld y patrwm ar eu cynffonnau)
11 pibydd y mawn
6 pioden fôr
8 coesgoch
6 glyfinir
2 chwadan wyllt
1 chwadan o bedigri amheus (= mwngrel!)
34 chwiwell
150 gwylan benddu
60 gwylan benwaig
2 wyach bach



*Amryw: chwadan wyllt a mwngrel, efo rhostogion a gwylan benddu rhyngthyn nhw*

Wrth inni fynd yn ein blaenau rownd yr harbwr fe welwyd dau greyr gwyn bach, creyr glas a mulfran werdd. Anaml y gwelir mulfran werdd yma – y bilidowcar gawn ni fel arfer – wedi dwad i lochesu oedd hi rhag y storm mae'n amlwg.



*Y ddanheddog yn ei heglu (neu ei hadeinio) hi*

Penderfynnu mynd i bendraw'r Cob. Ond ar hyd y llwybr beics yn hytrach na ar hyd y top! Roedd 'na gysgod braf yn dilyn y wal. Ddim llawer o adar efallai, heblaw robin goch yng nghysgod y llwyni, ond fe gawson ni olwg dda ar sut oedd y gwynt yn gweithio. Roedd yn amlwg fod y dymestl, wrth chwyrlïo dros y Cob o'r môr yn ein gadael ni yn llonydd mewn math o fortecs yng nghysgod y wal. Yn sianel yr afon, rhwng ryw 20 – 100 llath oddiwrthym, roedd y gwynt yn taro ar i lawr yn gryf gan yrru cylchoedd o grychni i chwalu'n gyflym i bob cyfeiriad ar wyneb y dŵr. Ymhellach allan, â'r gwynt yn ailafael yn ei rym a'i gyfeiriad unwaith eto roedd wyneb yr afon yn cael ei chwipio'n donnau bychain brigwyn.

Roeddem yn falch o gyrraedd y guddfan wrth hen dollborth Rebecca a chael ein cinio mewn rhywfaint o heddwch. Heddwch cymharol, hynny yw, oherwydd mi oedd y cwt pren yn crynnu a siglo o'n cwmpas ni! Roedd rhai yn ddigon dewr i aros allan ar y fainc wrth y llwybr beics a, chwara' teg, fe gafwyd cysgod da yno.



*Tri gŵr doeth*

Doedd fawr o adar i'w gweld o'r guddfan heblaw criw bach o chwiws yn llochesu yn y brwyn a deryn du a thitw mawr (ceiliog) yn y coed. Y difyrrwch mwya oedd gwylio brân yn brwydro yn erbyn y gwynt – yn hedfan yn ei blaen ond yn symud tua'n ôl! Fe ddaeth bilidowcar o rywle hefyd i hedfan yn erbyn y gwynt. Fe gafodd o dipyn gwell llwyddiant arni am ei fod yn pwyso mwy yn un peth ond hefyd, aderyn y môr ydi hwn ac wedi hen addasu ac arfer efo gwyntoedd cryfion yr arfordir.

Yn ein holau yr un ffordd ag y daethom a neb y tro yma chwaith am fentro ar hyd pen y Cob. Picio draw i geg yr harbwr wrth y clwb hwylio, gyferbyn ag Ynys Balast, i weld be oedd yno. Dau greyr gwyn bach yn clwydo yn y llwyni yng nghysgod yr ynys a chreyr glas yn cysgodi odditanynt. Clywed bod tua tri dwsin o'r creyrod bach yn clwydo yma dros nos y dyddiau hyn. Mae hyn yn dda iawn ac yn dangos fod eu niferoedd wedi codi'n ôl ar ôl y gostyngiad mawr welwyd yn sgïl gaeaf caled y llynedd. Roedd 'na greyr bach arall yn hel ei damaid ar ymyl yr harbwr a bilidowcar yn pysgota yn y sianel odditanom.



*Bili-D yn chwilio am damaid*

Erbyn hyn roedd hi'n hen bryd am paned ac er bod Anwen wedi ein gadael am gaffi Cadwaladr yn lle dwad i bendraw'r harbwr, fe gafodd y gweddill ohonom ei hudo gan Haf i'r Gegin Fach, oedd yn dipyn agosach. Fe aeth rhai ar gennad i hysbysu Anwen o'r ffaith ac fe ddaeth hithau, ar ôl gorffen ei phaned a chacan yno am ail ddos atom ni.



*Ew! Dyma'r ffordd i'w gorffen hi*

*[Diolch i Huw Dafydd am y lluniau i gyd, gyda ymddiheuriadau am eu bod yn dywyll – ond diwrnod tywyll oedd hi. Gareth yn tynnu'r olaf ond efo camera Huw]*

**Er clod i'r dryw**

Er ei fod yn cael ei hela dros gyfnod Gwyliau'r Dolig roedd y dryw yn dal yn uchel ei barch:

Dryw bach yn dedwi pedwar ar ddeg
A rheiny'n lân ac yn deg,
A chrechi dim ond dau
A rheiny'n llawn crach a llau.

*[Rhigwm o Sir Benfro]*

## Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Ionawr – Mehefin 2014

Dydd Sadwrn, Ionawr 11$^{fed}$
**Taith : Aber yr Afon Dwyryd, dan arweiniad Huw Dafydd** (hon ohirwyd fis Hydref oherwydd tywydd drwg!) Cyfarfod 10.30yb : yn yr Ynys, Talsarnau (SH600355)

Nos Fawrth, Ionawr 28$^{ain}$
**Noson Gymdeithasol / Seiat Natur :**
Cyfarfod 7.30yh : yn nhafarn Y Pengwern, Llan Ffestiniog

Dydd Sadwrn, Chwefror 8$^{fed}$
**Taith : Dinas Dinlle a Chaer Belan, dan arweiniad Ifor Williams**
Cyfarfod 10.30yb : ym Maes Parcio'r traeth, Dinas Dinlle (SH435565)

Dydd Sadwrn, Chwefror 22$^{ain}$
**Taith : RSPB Conwy a Morfa Conwy, dan arweiniad Sian Jones ac eraill**
Cyfarfod 10.30yb : ym Maes Parcio'r RSPB, Gwarchodfa Conwy (SH796774)

Nos Fawrth, Mawrth 11$^{fed}$
**Sgwrs :** (i'w threfnu)
Cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, am 7.30yh

Dydd Sadwrn, Ebrill 5$^{ed}$
**Taith : Cors Stumllyn a'r Greigddu**
Cyfarfod 10.30yb : ym maes parcio'r traeth, Morannedd, Cricieth (SH504382)

Noson Galwad ar Daith (dyddiad i'w gadarnhau)
**Seiat Natur : Bydd Panel Galwad Cynnar yn barod i ateb eich cwestiynnau**
Cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, i gychwyn am 7.00yh

Dydd Sadwrn, Ebrill 26$^{ain}$
**Taith : Dolwyddelan a Chwm Penamnen, dan arweiniad Twm Elias**
Cyfarfod 10.30yb : ger yr Orsaf Reilffordd, Dolwyddelan (SH738521)

Dydd Sadwrn, Mai 24$^{ain}$
**Taith : Llyn Traws a'r ynysoedd, dan arweiniad Twm Elias**
Cyfarfod 10.30yb : yn y maes parcio cyhoeddus ger yr Atomfa (SH....)

Dydd Sadwrn, Mehefin 14$^{eg}$
**Taith : Ynys Lawd a Mynydd Twr, dan arweiniad Eifion a Nia**
10.30yb : ym Maes Parcio'r RSPB, Gwarchodfa Ynys Lawd (SH210818)


*Plas Tan y Bwlch*
*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i **Gymdeithas Ted Breeze Jones** ac i **LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig a/neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau gyfarfod yma neu i ymweld gyda'r nos am bryd bwyd a thro rownd y gerddi

Am fwy o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600